**CYFARFOD Y CYNGOR** **16 GORFFENNAF 2025**

# AGENDA

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd gan aelodau am ddiffyg presenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

## 3. COFNODION

Cadarnhau fod cofnodion cyfarfod y Cyngor a'r cyfarfodydd pwyllgor a ganlyn yn gofnodion cywir (copïau ynghlwm):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 18 Mehefin 2025 | - | Cofnodion rhifau 19-37 |
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 18 Mehefin 2025 | - | Cofnodion rhifau 1-4 |

## 4. CYFLWYNIAD I ELUSENNAU'R MAER 2024-2025

Croesawu cynrychiolwyr o elusennau'r Cynghorydd Miss C. L. Williams yn ystod ei blwyddyn fel Maer. Yn cynrychioli The Ask Centre, Ms Eunice Parry, ac o Work in Progress, Mr Toby Fabin.

## 5. CYFLWYNIAD I'R CYNGHORYDD MISS C. L. WILLIAMS

Y Maer i gyflwyno cofnod o'i blwyddyn fel Maer yn 2024/2025 i'r Cynghorydd Williams.

## 6. CYFLWYNO MEDAL GWASANAETH HIR

Y Maer i gyflwyno medal i'r Cynghorydd Mrs Sarah Connolly am wasanaethu'r gymuned fel Cynghorydd Tref am 12 mlynedd.

## 7. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi i ddilyn).

## 8. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI (ATODLEN A)

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

## 9. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**10. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2025/26: CHWARTER 1 – MIS EBRILL – MIS MEHEFIN 2025**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

**11. Y CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30 MEHEFIN 2025 A RHAGFYNEGIAD 2025/26**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

**12. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR GRŴP GWEITHREDU AR GYFER DEMENTIA Y RHYL**

Ystyried penodi cynghorydd i fod yn aelod o'r grŵp uchod, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd A. J. Rutherford fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.

**13. PENODI LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL**

Ystyried penodi cynghorydd yn llywodraethwyr yn Ysgol Crist y Gair, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd A. Walker fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.

**14. PENODI LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL**

Ystyried penodi cynghorydd yn llywodraethwr yn Ysgol Dewi Sant, yn dilyn y sedd wag a adawyd gan y cyn Gynghorydd Ms J. Hughes fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.

**15. SESIWN HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod.

**16. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**17. CYNGOR SIR DDINBYCH: TOILEDAU CYHOEDDUS Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 34 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025, derbyn adroddiad mewn cyfrinachedd gan Glerc y Dref yn dilyn derbyn manylion costau'r toiledau cyhoeddus sy'n wynebu cael eu cau (copi ynghlwm) i'r aelodau ei ystyried.

**18. COELCERTH AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT Y GYMUNED**

Derbyn adroddiad llafar mewn cyfrinachedd gan Glerc y Dref.

**19. SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF**

Derbyn diweddariad llafar mewn cyfrinachedd gan Glerc y Dref.

**20.** **GWYLIAU MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r aelodau a ganlyn, am y cyfnod rhwng 18 Gorffennaf tan 18 Medi 2025:

| | | |
|---|---|---|
| Materion dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Unrhyw fusnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

**21.** **DIWEDD Y CYFARFOD**

Y Maer i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.